# Dinas a Sir Abertawe - Adroddiad Blynyddol Cynghorydd 2018-2019

Mae adroddiad blynyddol y cynghorydd hwn yn amlinellu ei gweithgareddau dros y flwyddyn a ddaeth i ben ar **08 Mai 2019.** Fe'i darperir er gwybodaeth i'r holl etholwyr ac nid oes iddo ddiben arall. Barn y cynghorydd a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid yw o reidrwydd yn adlewyrchu barn Dinas a Sir Abertawe.

| **Cynghorydd:** | Louise Gibbard | **Adran Etholiadol:** | Dynfant |
|---|---|---|---|

| **Swydd Cyflog Uwch:** | |
|---|---|

**Adran 1: Gweithgareddau yn yr etholaeth**

Rwyf i, ynghyd â'm cydweithiwr ward, y Cyng. Jennifer Raynor, wedi cynnal cymorthfeydd heb apwyntiadau a oedd yn agored i bob preswylydd yn Nynfant. Rwy'n derbyn llawer o faterion gwaith achos drwy e-bost a galwadau ffôn ac rwy'n sicrhau fy mod yn ymateb yn brydlon, gan ddilyn trywydd marterion gyda swyddogion perthnasol y cyngor ac aelodau cabinet yn ôl y galw. Rydym mewn cysylltiad rheolaidd ag etholwyr drwy gylchlythyrau, dau hysbysfwrdd cymunedol a'n tudalen Facebook..

Rydym yn parhau i edrych ar bryderon diogelwch ffyrdd gyda phreswylwyr a swyddogion y cyngor. Trefnom fod croesfan sebra'n cael ei gosod yn Nerlwyn i gynorthwyo teuluoedd sy'n croesi o Ysgol Gynradd Dynfant a gwella arwyddion ar Sgwâr Dynfant a Rhodfa Garrod. Rydym yn archwilio safleoedd a datrysiadau eraill o gwmpas y ward.

Rydym unwaith eto wedi ariannu arddangosiadau blodau gwyllt o gwmpas Dynfant. Rydym yn adrodd yn rheolaidd am achosion o dipio anghyfreithlon, tyllau yn y ffordd a gordyfiant ac rydym wedi trefnu digwyddiadau casglu sbwriel. Law yn llaw â disgyblion yn ein hysgolion lleol, rydym wedi gosod arwyddion i annog perchnogion cŵn i godi baw eu cŵn.

Rwyf wedi sicrhau bod dod â'r gymuned ynghyd yn brif flaenoriaeth, gan gefnogi grwpiau ac ysgolion a'u helpu i drefnu gweithgareddau lleol sy'n agored i bawb megis dau ddigwyddiad dangos ffilmiau i blant, te prynhawn yng Nghanolfan Gymdeithasol Dynfant, a digwyddiadau gyda Chyfeillion Parc Dynfant fel yr helfa wyau Pasg a diwrnod hwyl Calan Gaeaf. Prynom ddiffibriliwr ar gyfer Ysgol Pen-y-Fro gydag arian o'n cyllideb cymunedol a chompost ar gyfer proseict gwelyau uchel clwb eco Ysgol Gynradd Dynfant.

Rwy'n llywodraethwr yn ysgolion cynradd Pen-y-Fro a Dynfant Primary ac yn aelod o bwyllgor Cyfeillion Parc Dynfant. Rwy'n mynychu cyfarfodydd PACT yn rheolaidd ac yn parhau i weithio gyda'n PCSOs a swyddogion yr heddlu mewn perthynas â diogelwch cymunedol, yn enwedig pryderon ynghylch ymddygiad gwrthgymdeithasol a pharcio anghyfrifol.

**Rhan 2: Presenoldeb y cynghorydd yng nghyfarfodydd penodol cyrff y cyngor**

Un elfen bwysig yn unig o ddyletswyddau cynghorydd yw mynychu cyfarfodydd cyrff y cyngor. Mae cynghorwyr hefyd yn gweithredu trwy gynnal cymorthfeydd, mynd i gyfarfodydd ac ymateb i ymholiadau cyffredinol gan yr adran etholiadol.

Gallwch weld presenoldeb y cynghorydd yma.

# Dinas a Sir Abertawe - Adroddiad Blynyddol Cynghorydd 2018-2019

**Adran 3: Rôl a chyfrifoldebau'r cynghorydd**

Gallwch weld presenoldeb y cynghorydd yma.
Gallwch weld penodiadau'r cynghorydd i gyrff allanol yma.

**Adran 4: Mentrau a gweithgareddau arbennig**

Fel Hyrwyddwr Menywod, rwyf wedi parhau â'm ffocws ar broblem "tlodi'r mislif" ac wedi helpu i gyflwyno cynllun i ddarparu cynnyrch mislif am ddim i'r holl ferched y mae arnynt eu hangen mewn nifer o leoliadau'r cyngor gan gynnwys ein holl lyfrgelloedd, Oriel Gelf Glynn Vivian, Canolfan Dylan Thomas a safleoedd eraill.

**Adran 5: Dysgu a datblygu**

Gallwch weld hyfforddiant cynghorwyr yma.

**Adran 6: Gweithgareddau a materion eraill**

Rwyf wedi bod yn gweithio'n galed i wella fy ngwybodaeth a'm dealltwriaeth o'r matgerion sy'n wynebu'n dinas a'n cymunedau amrywiol ac rwyf wedi mynd i ddigwyddiadau megis y Ffair Werdd yn Amgueddfa'r Glannau, Women 4 Resources a digwyddiadau Diwrnod Rhyngwladol y Merched PEN Cymru, Stand Up to Racism, Diwrnod Coffáu'r Holocost, Diwrnod y Rhuban Wen, digwyddiad Wythnos Genedlaethol Diogelu am ecsbloetiaeth (gan gynnwys sgyrsiau ar County Lines, gweithredoedd twyllodrus a chaethwasiaeth fodern) Cynhadledd Cydraddoldeb Hiliol, Cynhadledd Canol y Ddinas a llawer mwy.

**Rhan 7: Taliadau cydnabyddiaeth i gynghorwyr**

Cyflog Sylfaenol: £13,600

Gellir gweld ffurflenni hawlio costau teithio a chynhaliaeth cynghorwyr yma.
Gellir gweld treuliau a lwfansau blynyddol cynghorwyr yma.

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | 11/07/2019 |